**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Vaughan Gething AS
Prif Weinidog Cymru

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet

13 Mai 2024

Annwyl bawb

Gwahoddiad i roi tystiolaeth

Rydym wedi sefydlu arfer adeiladol a gwerthfawr yn y Chweched Senedd, ble mae'r aelod(au) o Lywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldebau sy'n dod o fewn ein cylch gwaith wedi neilltuo amser i ymddangos ger ein bron fel Pwyllgor yn rheolaidd ar gyfer sesiynau craffu cyffredinol.

Yn unol â'r arfer hwn, hoffwn eich gwahodd i gyd i fod yn bresennol yn ein cyfarfod pwyllgor naill ai ar 24 Mehefin, ar 8 Gorffennaf neu ar 15 Gorffennaf ar gyfer sesiwn graffu ar y cyd. Byddem yn gwerthfawrogi cael dwy awr o'ch amser, ac rydym yn fodlon bod mor hyblyg ag y gallwn o ran amser cychwyn cyfleus.

Caiff y cyfarfod hwn ei gynnal ar ystad y Senedd; mae'r union ystafell i'w chadarnhau maes o law. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a fyddwch yn gallu bod yn bresennol, a hynny cyn gynted ag y bo modd. Gall Clerc y Pwyllgor gysylltu â'ch swyddogion i drafod amseroedd priodol.

Bydd y sesiwn hon yn helpu i lywio ein hadroddiad blynyddol nesaf, y bwriadwn ei osod gerbron y Senedd yn nhymor yr hydref.

Yn gywir

Sarah Murphy
Cadeirydd